



Ein cyf/Our ref: SF/CS/4145/13

I Bob Aelod Cabinet Awdurdod Lleol sydd a
Chyfrifoldeb dros Gynllunio

18 Rhagfyr 2013

Annwyl Gydweithwyr

Yn “Ynni Cymru,” mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi rhaglen uchelgeisiol ar waith i hwyluso'r gwaith o drosglwyddo i economi carbon isel, a hynny mewn ffordd sy'n manteisio i'r eithaf ar ein cyfoeth naturiol ac sy'n creu swyddi a sgiliau hirdymor i bobl Cymru. Mae'r gwaith sydd angen ei wneud i gyflawni ein huchelgeisiau'n mynd ar draws sawl portffolio Llywodraethol ac mae'n cynnwys ystod eang o randdeiliaid. Un o brif flaenoriaethau “Ynni Cymru” yw sicrhau bod cymunedau'n cael budd o ddatblygiadau ym maes seilwaith ynni. Yr amcan hwn yw sail menter Ynni'r Fro, sy'n cefnogi cymunedau lleol i ddatblygu cyfleoedd ynni adnewyddadwy ac i ail-fuddsoddi'r hyn a ddaw o ddatblygiadau o'r fath yn lleol.

Wrth geisio hyrwyddo prosiectau ynni adnewyddadwy cymunedol, rwy'n cydnabod bod y system gynllunio'n chwarae rhan hollbwysig a'i bod yn hanfodol i sut y caiff prosiectau ynni cymunedol eu trefnu yng Nghymru. Rwy'n dymuno gweld system gynllunio sy'n dryloyw ac sy'n gyson ledled Cymru. Rwyf wedi cyflwyno Bil Cynllunio (Cymru) drafft y mis hwn sy'n nodi fy ngweledigaeth ar gyfer dyfodol y system gynllunio yng Nghymru mewn mwy o fanylder. Fodd bynnag, dylai'r awdurdodau lleol hefyd gydnabod ei bod yn bosibl y bydd grwpiau a sefydliadau cymunedol sy'n ceisio hyrwyddo prosiectau ynni adnewyddadwy angen cymorth arbennig gyda'r system gynllunio. Gall grwpiau o'r fath fod yn anghyfarwydd a phrosesau technegol a gofynion y system gynllunio, rwyf felly'n disgwyl i awdurdodau cynllunio lleol roi cymorth i brosiectau cymunedol wrth ddelio â nhw.

Mae sawl ffordd ymarferol y gall awdurdodau cynllunio lleol wneud hyn; mae ymwneud a'r ymgeisydd yn gynnar yn un ffordd bwysig. Yn y cyd-destun hwn, hoffwn atgoffa awdurdodau cynllunio lleol a sefydliadau sy'n hyrwyddo prosiectau ynni adnewyddadwy cymunedol am y canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2012 i annog trafodaethau cyn gwneud cais er mwyn gwella safon ceisiadau cynllunio ac i sicrhau y ceir penderfyniadau yn gynt.

Mae ein polisi cynllunio cenedlaethol, Polisi Cynllunio Cymru, yn cydnabod y potensial i gymunedau a busnesau bychain i fuddsoddi ym mherchnogaeth prosiectau ynni adnewyddadwy neu ddatblygu eu prosiectau eu hunain er budd yr ardal leol. Polisi Llywodraeth Cymru yw cefnogi prosiectau ynni adnewyddadwy cymunedol lle mae buddion y prosiectau'n cael eu dychwelyd i'r gymuned.

Wrth wneud eu penderfyniadau ar unrhyw gais ynni adnewyddadwy, rwy'n disgwyl i awdurdodau cynllunio lleol gydymffurfio â'r gofyniad cyfreithiol i wneud penderfyniadau'n unol â'u cynllun datblygu oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn dynodi fel arall. At hynny, wrth asesu ceisiadau cynllunio ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy, dylid ystyried yn llawn y buddion economaidd a'r cyfleoedd am swyddi sy'n gysylltiedig â datblygiad, a dylid rhoi pwys iddo yn y broses o wneud y penderfyniad, fel y nodir ym Mhennod 7 Polisi Cynllunio Cymru.

Dylid seilio penderfyniadau cynllunio ar asesiad o effeithiau datblygiad arfaethedig, pwy bynnag yw'r ymgeisydd. Fodd bynnag, drwy gydnabod anghenion penodol grwpiau a sefydliadau cymunedol, a thrwy gynnig y cyfle iddynt ymwneud yn gynnar a'r broses gynllunio, y gobaith yw y gallwn wireddu ein huchelgais i weld prosiectau ynni adnewyddadwy dan berchnogaeth cymunedau'n ffynnu ledled Cymru.

Yn gywir



Carl Sargeant AC / AM
Y Gweinidog Tai ac Adfywio
Minister for Housing and Regeneration